



**Gweddïau ar gyfer Plant ac Ieuenctid**  
**28 Mai -3 Mehefin 2017**

**Gweddi fyw Ioan 17.1-11**

**Galwad i addoli**

*yn seiliedig ar Salm 68*

Canwch i Dduw, molwch ei enw.  
Canwch yn ddiolchgar am y cyfan a wnaeth  
trwy'r oesoedd.  
Canwch yn llawen am ei fod wedi dod â ni  
ynghyd fel ei bobl.  
Canwch i Dduw, molwch ei enw.

**Amen.**

**Gweddi ymgynnull**

Dduw pawb a phopeth, wrth i ni ddod i  
addoli,  
diolchwn i ti am bawb a fu'n gweddïo yn y lle  
hwn,  
am bawb y mae eu rhoddion yn waddol sy'n  
parhau,  
am bawb yr ydym yn ychwanegu at eu  
gwaith.  
Diolch i ti am weinidogaeth barhaol dy bobl  
yma,  
a deled dy deyrnas.

**Amen.**

**Gweddi ddynesu**

Cadwch funud o dawelwch rhwng pob llinell.

Rhown o'r neilltu ein prysurdeb, a gweddiwn  
am gael gorffwyso.  
Rhown o'r neilltu ein difrawder, a gweddiwn  
am heddwch.  
Rhown o'r neilltu ein hanfodlonrwydd, a  
gweddiwn am ddiolchgarwch.  
Rhown o'r neilltu ein hofn, a gweddiwn am  
dewrder.  
Rhown o'r neilltu ein gwahaniaethau, a

gweddiwn am undod.

Rhown o'r neilltu y cyfan sy'n ein gwahanu  
oddi wrthyt ti,  
a gweddiwn am dy fendith.

**Amen.**

**Gweddi o gyffes**

Mae'n ddrwg gennym, Dduw graslon,  
am gadw gweddi ac addoliad ar wahân i'n  
bywydau bob dydd;  
am fod yn feddylgar pan ddown i addoli,  
ond yn ddifeddwl pan awn i weithio;  
am wrando ar dy lais yn yr Ysgrythur,  
ond gwrthod gwrando ar eraill gartref;  
am weddi dros anghenion y byd,  
ond anwybyddu'r anghenion hynny pan fydd  
hynny'n costio'n ddrud.  
Maddau i ni, a chynorthwya ni i fyw fel rydym  
yn gweddïo  
a gweddïo fel rydym yn byw, gan ddilyn  
esiamp llesu.

**Amen.**

**Gweddi o fawl**

Daeth yr awr i ollwng y cyfan sy'n ein llethu,  
a'th foli di am roi i ni gyfle i ddechrau o'r  
newydd.

Daeth yr awr i roi ein gwahaniaethau o'r  
neilltu,

a'th foli di am gyfeillion newydd.

Daeth yr awr i ollwng y cyfan sy'n ein dal yn  
ôl,

a'th foli di am gyfleoedd newydd.

Daeth yr awr i fod yn hyderus yn ein ffydd,  
a'th foli di am y gwaith bugeilio yr wyt yn ei  
ymddiried i ni.

Daeth yr awr i fyw fel yr ydym yn gweddïo.  
Yn enw Iesu.

**Amen.**

## Gweddïau o eiriolaeth

*Ymateb:*

**Dad sanctaidd, gwarchod nhw yn dy enw di.**

Gweddïwn dros y rhai sy'n byw ynghanol  
rhyfel a thrais,  
a'r rhai sy'n gweithio i gadw'r heddwch a  
chynorthwyo'r clwyfedig:

Gweddïwn dros y rhai sy'n teimlo'n drist ac  
yn ansicr o'u dyfodol,  
y rhai sydd wedi colli eu swyddi a'u pwrpas  
mewn bywyd:

Gweddïwn dros y rhai sy'n fregus,  
y rhai y mae eu hadnoddau'n brin a'u  
hanghenion yn fawr,  
y rhai sy'n dibynnu ar eraill am eu  
hanghenion beunyddiol:

Gweddïwn dros arweinwyr gwleidyddol ac  
eglwysig,  
sy'n dylanwadu ar fywydau a meddyliau  
cymaint o bobl:

Gweddïwn dros bawb sy'n agos atom,  
pawb sy'n agos at ein calonnau, pawb sy'n  
arbennig yn ein golwg.

## Gweddi bersonol

Dduw annwyl, deuaf atat weithiau mewn  
gweddi  
â'm geiriau eisoes wedi'u ffurfio a'r atebion  
wedi'u rhagdybio.  
Arglwydd, arwain fi'n dyner at waelod y  
groes,  
i wyllo a gwrando eto ar weddi dy Fab.  
Cynorthwya fi'n syml ac yn dawel i fyw yn  
hael,  
ac i garu, fel y carodd ef.  
Amen.

## Gweithgaredd gweddi

Cymerwch amser i edrych ar rywbeth yn cael  
ei greu – coeden,  
blodyn, aderyn – ac edrychwch arno fel  
gweddi fyw. Diolchwch  
am bopeth sy'n ein tynnu'n nes at Dduw dim  
ond wrth fod yn  
ef ei hun. Sut gallech chi wneud yr un peth?

## Gweddi ar gyfer pob oed gyda'i gilydd

*Pawb i gydio dwylo, gan ffurfio llinell.  
Cymryd cam ymlaen a chodi  
dwylo i fyny gyda'i gilydd, a dweud: Rydym  
fel un.*

Wrth ddeisyfu byd lle nad oes neb yn  
newynu: **rydym fel un.**

Wrth ddeisyfu byd lle nad oes raid i neb adael  
eu cartref a dianc rhag trais:

**rydym fel un.**

Wrth ddeisyfu byd lle nad yw creaduriaid yn  
dioddef: **rydym fel un.**

Wrth ddeisyfu byd lle mae heddwch yn  
teyrnasu: **rydym fel un.**

Wrth ddeisyfu byd lle na ddefnyddir  
awdurdod i orthrymu eraill:

**rydym fel un.**

**Rydym fel un.**

**Rydym fel un mewn gweddi.**

**Rydym fel un yn ein calonnau.**

**Rydym fel un ynot ti, Arglwydd Iesu.**

**Amen.**

## Gweddi i gloi

Byddwch yn eofn yn eich gweddïau, a dewr.  
Byddwch yn addfwyn yn eich gweddïau, a  
thrugarog.

Byddwch yn dawel yn eich gweddïau, a  
chodwch eich llais.

Yn enw Iesu.

**Amen.**